**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod Y Cabinet

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Iau, 8 Medi 2022 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd R C Stewart (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| C Anderson | L S Gibbard | H J Gwilliam |
| D H Hopkins | E J King | A S Lewis |
| R V Smith | A H Stevens | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Tracey Meredith | Prif Swyddog Cyfreithiol |
| Martin Nicholls | Prif Weithredwr Dros Dro |
| Ben Smith | Cyfarwyddwr Cyllid / Swyddog Adran 151 |

**Hefyd yn bresennol**
Y Cynghorydd(wyr): C A Holley

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): R Francis-Davies a/ac A Pugh

---

## 32. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 33. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.

Ni wnaed unrhyw gyhoeddiadau gan Arweinydd y Cyngor.

## 34. Gwahardd y cyhoedd: -

Gofynnwyd i'r Cabinet wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad(au) ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes y nodir yn yr adroddiad(au).

Ystyriodd y Cabinet Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel y nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitem(au) f/busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

## 35. Hawl i holi cynghorwyr.

Gofynnodd y Cynghorydd Holley nifer o gwestiynau mewn perthynas â chofnod rhif 36, “Caffaeliad, Canol Dinas Abertawe” a chofnod rhif 37 “Skyline: Cynnig Hamdden Newydd ar gyfer Abertawe”.

Ymatebodd Arweinydd y Cyngor a’r Swyddog Adran 151 yn briodol.

## 36. Caffael Canol Dinas Abertawe.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth adroddiad a oedd yn gofyn i'r Cabinet ystyried y bwriad i gaffael hen uned Debenhams yn y Cwadrant i gefnogi adferiad canol y ddinas ac yn gofyn am awdurdodiad cyllidebol i ychwanegu'r prosiect at y Rhaglen Gyfalaf yn unol â rheolau'r Weithdrefn Ariannol.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r argymhellion, fel y'u hamlinellir yn yr adroddiad.

## 37. Cynnig Hamdden Newydd ar Gyfer Abertawe.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer y cynllun a'i oblygiadau ariannol, gan gynnwys grant ariannol a benthyciad ad-daliadwy i gefnogi cyflwyno cynllun Skyline, yn unol â Rheolau'r Weithdrefn Ariannol a neilltuo ac awdurdodi'r cynllun i'r Rhaglen Gyfalaf i gydymffurfio â Rheol 7.3 y Weithdrefn Ariannol "Rhaglennu ac Arfarniadau Cyfalaf".

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r argymhellion, fel y'u hamlinellir yn yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod I ben am 10.36 am

**Cadeirydd**

| **Gweithdrefn Galw i Mewn – Dyddiadau Perthnasol** | |
|---|---|
| Dyddiad cyhoeddi: | 8 Medi 2022 |
| Cyfnod Galw i Mewn yn dod i ben<br>(3 diwrnod gwaith clir ar ôl cyhoeddi): | 23.59, 13 Medi 2022 |
| Penderfyniad yn dod i rym: | 14 Medi 2022 |